**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**25ain Gorffennaf 2007**

**RHAGOLYGON AR GYFER CYLLIDEB 2008/09**

**Adroddiad gan Dawn Docx**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)**

**Diben yr adroddiad**

**1.** Mae'r papur hwn yn gyfle cynnar i osod y pwysau cyllidebol hysbys ar gyfer 2009/09 a thu hwnt. Nid yw'n bosib mesur yr holl bwysau yma ar hyn o bryd, ond lle sy'n bosib, maent wedi cael eu cynnwys i gynhyrchu cyllideb ddynodol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Cefndir**

**2.** Mae Aelodau wedi mynegi dymuniad i fod yn rhan o baratoad cyllideb Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gam cynharach nag sy'n arferol. Er mwyn helpu'r broses hon, mae'r papur hwn yn rhestru'r pwysau ariannu hynny sy'n wynebu'r Gwasanaeth y flwyddyn nesaf. Mae'n crynhoi yr hyn sy'n achosi'r pwysau hynny ac i ba raddau y maent yn ddewisol.

**3.** Y pwynt cychwyn yw cyllideb 2007/08. Mae'r gyllideb gyfalaf o £5.5 miliwn, sy'n cynnwys £1.5 miliwn i brosiect Rhyl Cyntaf, yn cael ei ariannu'n bennaf drwy fenthyca darbodus. Ar gyfer pob £1 miliwn sy'n cael ei godi drwy fenthyca mae'r gost yn £60,000 y flwyddyn o'r gyllideb refeniw.

**Cefndir** *(parhad)*

**4.** Y gyllideb refeniw ar gyfer 2007/08 yw £29.5 miliwn. Bydd Aelodau yn galw i gof fod hon yn gyllideb ddigynnydd oedd yn cwrdd â'r dyfarniadau cyflog blynyddol (2.4% i weithwyr gweithredol) ond nid oedd yn caniatáu ar gyfer unrhyw chwyddiant ar gyflenwadau neu wasanaethau. Nid oedd yn caniatáu am unrhyw eitemau twf ac nid oedd yn cynnwys unrhyw arian i gyfraniad y cyflogwyr i'r cynllun Pensiwn Newydd i'r staff hynny sy'n cael eu cyflogi ar y system dyletswydd rhan amser.

**5.** Os mai dim ond y costau hysbys, a restrir isod, oedd yn rhan o gyllideb 2008/09, byddai angen cyllideb refeniw o £32 miliwn a fyddai'n gynydd o 8.5%. Rhaid ystyried hyn gyda golwg ar setliad RSG allai fod rhwng 2% a 3%. Mae'n debygol na fyddai cynghorau yn cefnogi unrhyw dwf arwyddocaol allai effeithio ar lefelau treth y cyngor neu Wasanaethau eraill mewn blwyddyn etholiad.

**6.** Mae'r Awdurdod bob amser wedi cefnogi'r angen i gyfyngu gwariant y cyhoedd ac i wneud arbedion effeithiolrwydd yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gynigion fel rhan o gynllun gweithredu yr RRP. Er bydd y cynigion yma'n cynhyrchu effeithiolrwydd ar gyfer ail-fuddsoddi, ni fydd y rhain ar gael nes 2009/2010 fan gynharaf.

**7.** Yn y cyfamser, rhaid i'r Gwasanaeth gwrdd â'r pwysau ariannol canlynol yn 2008/09

## **Cefndir** *(parhad)*

| Pwysau | Disgrifiad | Gyrrwr | Cost 08/09 £'000 |
|---|---|---|---|
| Dyfarniadau cyflog | Nid oes fformiwla cyflog wedi cael ei phennu i gyflogwyr ar amodau'r llyfr llwyd. Y dyfarniad cyflog ar gyfer Gorffennaf 07 yw 2.4%. Rydym ni wedi tybio 3% ar gyfer 08/09.<br>Nid ydym ni'n hysbys o ddyfarniad i staff cefnogi ar gyfer 07. | Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol | 875 |
| Cynllun Pensiwn y System Dyletswydd Rhan Amser | Ar hyn o bryd, cost gweithwyr canolradd yn seiliedig ar 14.2% o dal pensiynadwy yn hafal i £1230 yr un. Defnyddir y dybiaeth bydd 50% o'r 581 o weithwyr y System Dyletswydd Rhan Amser yn ymuno â'r cynllun. | Cytundeb cenedlaethol<br><br>Aelodaeth bresennol 120 | 357<br><br>(148) |
| Pensiynau Afiechyd | O dan y trefniadau pensiwn newydd, mae'r gost yma i'w chyflwyno dros 3 mlynedd. Dyma flwyddyn 2. | Cytundeb cenedlaethol | 333 |
| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | Cynnydd yn nghyfraniad y cyflogwyr i gynllun pensiwn llywodraeth leol oherwydd ailbrisiad. | | 50 |

**Cefndir** *(parhad)*

| Pwysau | Disgrifiad | Gyrrwr | Cost 08/09 £'000 |
|---|---|---|---|
| Firelink | Cynllun radio cenedlaethol newydd. | Rhan o gynni i Lywodraeth y Cynulliad | ? |
| Gwaith cydnerth i'r Ystafelloedd Rheoli | Fel a gynghorir i Lywodraeth y Cynulliad gan adroddiad Howard Martin | Rhan o gynnig i Lywodraeth y Cynulliad | ? |
| Dimensiynau Newydd / Galluoedd Tymor Hir | Yn Lloegr, mae'r cyfrifoldeb am asedau'r Dimensiynau Newydd wedi cael ei drosglwyddo i'r Awdurdodau Tân ac Achub unigol. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud cyhoeddiad eto. | Polisi Cenedlaethol | ? |
| Cynyddu gwaith Diogelwch Cymunedol | I gyflwyno'r systemau busnes ac ariannu'r staff a'r offer sydd ei angen i wneud 30,000 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref pob blwyddyn | Cynllun Lleihau Risg ac argymhelliad gan Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân | 750 |
| Costau Safleoedd | £10,000 y flwyddyn i'r rhaglen rheoli Legionella £10,000 y flwyddyn i symud asbestos | I gwrdd â gofynion deddfwriaethol | 20 |

**Cefndir** *(parhad)*

| Pwysau | Disgrifiad | Gyrrwr | Cost 08/09 £'000 |
|---|---|---|---|
| Prosiect Dillad integredig (ICP) | Cytundeb cenedlaethol am offer amddiffyn personol wedi'i reoli'n llawn Nid yw'r costau'n hysbys ar hyn o bryd | Maer PPE yn 7 mlwydd oed nawr ac yn debygol o gyrraedd diwedd ei gylched bywyd yn y tymor canolig | ? |
| Costau Cyfreithiol | Mae'r gyllideb bresennol yn annigonol i gwrdd ag anghenion. | Angen cynyddol am gyngor cyfreithiol yn ymwneud â materion AD i gwrdd â'r agenda foderneiddio. | 50 |

**8. Argymhelliad**

Fod aelodau:

**8.1** yn nodi'r pwysau costau a restrwyd uchod, a'r effaith ddilynol ar y gyllideb dros dro. Fel a nodir ym mharagraff 5.

**8.2** yn dynodi pa wybodaeth bellach sydd ei angen ar gyfer y cam nesaf yn y broses o osod cyllideb.